

Ffederasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Talylychau

Pennaeth – Mrs Sian Davies (DaviesS878@hwbcymru.net)

Penaethiaid Cynorthwyol – Mrs L Williams/ Mrs A Morgan / Miss A Walker



Polisi Cyngor Ysgol School Council Policy

Pennaeth/Headteacher *S.L. Davies*

Cadeirydd y Corff Llywodraethol / Chair of Governors *M. Charles*

Adolygwyd / Reviewed - Medi/September 2024

Polisi Cyngor Ysgol

1. Rhesymeg ar gyfer Cyngor yr Ysgol

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi 'y mae'r hawl gan blentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun i fynegi'r farn honno'n ddirwystyr ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn'.

Ar draws Ffederasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Talylychau, rydym yn cydnabod bod:

- ❖ Gan ddisgyblion yr hawl i gael gwrandawriad.
- ❖ Mae'n bwysig ymgynghori â disgyblion pan fo hynny'n briodol.
- ❖ Mae cyngor ysgol a etholwyd yn ddemocrataidd yn cynnig cyfle strwythuredig ar gyfer cyfranogiad disgyblion wrth wneud penderfyniadau yn yr ysgol.

2. Amcanion Cyngor Ysgol

- ❖ Adlewyrchir pwysigrwydd cyngor ysgol yn y nodau canlynol o Fframwaith ABCh ACCAC (2000).
- ❖ I alluogi'r disgyblion i gyfranogi yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithgar.
- ❖ I ddatblygu hunan-barch a chyfrifoldeb personol ymhlith disgyblion.
- ❖ I feithrin ac annog agweddau ac ymddygiad cadarnhaol.

3. Diben y Cyngor Ysgol

- ❖ Dylai'r broses cyngor yr ysgol annog disgyblion i ddatblygu.
- ❖ Mae ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherchnogaeth o gymuned yr ysgol.
- ❖ Dylai'r broses cyngor yr ysgol ddarparu disgyblion â:
- ❖ Phrofiad o brosesau democrataidd.
- ❖ Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau megis siarad, gwranddo, gweithio gydag eraill a datrys problemau.

4. Rôl y Pennaeth

- ❖ Sicrhau y caniateir amser ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Ysgol.
- ❖ Gweithredu ar argymhellion y Cyngor.
- ❖ Darparu cyllideb, os oes angen, i weithredu syniadau.
- ❖ I hysbysu'r Corff Llywodraethu.

5. Rôl Athro/athrawes Cyswllt

- ❖ Trefnu etholiadau.
- ❖ Darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad.
- ❖ Cytuno ar restr o faterion i'w trafod.
- ❖ I hyfforddi aelodau cyngor yr ysgol.
- ❖ Trefnu a mynychu cyfarfodydd.
- ❖ I helpu aelodau'r cyngor i baratoi agendâu a chofnodion.
- ❖ Adrodd yn ôl i gydweithwyr.
- ❖ I helpu i godi proffil y Cyngor Ysgol.
- ❖ Monitro a gwerthuso cynnydd a wnaed.

6. Rôl Athro/athrawes Ddosbarth

- ❖ Cefnogi'r cynrychiolwyr dosbarth.
- ❖ Caniatáu amser rheolaidd ar gyfer trafodaethau dosbarth neu amser cylch.
- ❖ Monitro cyfleoedd ar gyfer ymgynghori ac adborth.
- ❖ Rhoi arweiniad i ddisgyblion ar sut i fod yn fwy effeithiol.
- ❖ I gysylltu'n rheolaidd gyda'r athro/athrawes gyswllt.

7. Rôl Disgyblion

- ❖ Gwranddo'n ofalus.
- ❖ Mynegi barn a syniadau yn hyderus.
- ❖ I holi ac ymateb i bobl eraill.
- ❖ Uniaethu â phrofiad eraill.
- ❖ Datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau mewn cyd-destun go iawn.
- ❖ Adrodd yn ôl i'w dosbarth a chyflwyno materion dosbarth i gyfarfodydd.
- ❖ I ddewis Cadeirydd, Is-gadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfodydd.

8. Trefniadaeth y Cyngor Ysgol

Etholiadau

- ❖ Gwahoddir yr holl blant i bleidleisio yn dilyn canfasio gan blant o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6, i ethol un disgybl o bob blwyddyn grŵp (2 ym mlwyddyn 6) ar y Cyngor Ysgol trwy etholiad democrataidd.
- ❖ Bydd pob dosbarth o'r derbyn i flwyddyn 6 yn cael un cynrychiolydd o bob blwyddyn grŵp (2 ym mlwyddyn 6)..
- ❖ Gall plant ddewis peidio â chael eu hystyried fel cynrychiolydd Cyngor Ysgol.
- ❖ Bydd holl aelodau'r dosbarth yn pleidleisio dros y cynrychiolydd drwy bleidlais gudd.

- ❖ Unwaith y bydd y bleidlais wedi cymryd lle, bydd yr athrawon yn casglu'r pleidleisiau ac yn eu cyfrif.
- ❖ Bydd plant yn cael gwybod am yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ddiweddarach yn y dydd.
- ❖ Ni ellir ethol rhai disgyblion fel cynrychiolydd dosbarth ar gyfer y dyfodol.
- ❖ Pan ym Mlwyddyn 6, gellir ystyried pob disgybl i fod yn gynrychiolydd dosbarth.

Cyfarfodydd

- ❖ Cynhelir cyfarfodydd mewn ystafell ddosbarth.
- ❖ Mynychir y cyfarfodydd gan gynrychiolwyr dosbarth ac athro cyswllt.
- ❖ Cytunwyd gan staff Cae'r Felin mai dim ond rhai materion sy'n addas ar gyfer trafodaeth megis materion iard chwarae, offer chwarae, gwobrau, defnydd o'r cae, amser chwarae tywydd gwlyb, system bydi, siop ffrwythau, mentrau busnes, sbwriel, prosiectau ailgylchu, rheolau'r ysgol, addurno, toiledau, codi arian, clybiau ac ati.
- ❖ Bydd cyfarfodydd yn chwarter awr a bydd y Cyngor yn cyfarfod fel sydd angen.

Rheolau

Cedwir y rheolau canlynol yn ystod cyfarfodydd:

- ❖ Cadeirydd y Cyngor bydd yn rheoli'r cyfarfod ac yn gofyn i bobl i siarad.
- ❖ Un person fydd yn siarad ar y tro.
- ❖ Rydym yn parchu syniadau pawb ac rydym yn osgoi gwneud hwyl am syniadau eraill.
- ❖ Bydd pob un ohonom yn ceisio dweud o leiaf un peth ym mhob cyfarfod, hyd yn oed os ydym yn teimlo yn nerfus.
- ❖ Nid ydym yn defnyddio enw unrhyw un, disgyblion neu athrawon, pan fyddwn yn sôn am bethau mewn cyfarfod.
- ❖ Peidiwch ag anghofio, rydych yn cynrychioli barn yr ysgol gyfan. Felly, peidiwch ag anghofio edrych yn y blwch syniadau a gwneud yn siŵr eich bod wedi gwrandao ar farn pob plentyn.

Adrodd yn ôl

- ❖ Mae gan y cyngor ysgol hysbysfwrdd yn y neuadd
- ❖ Byddwn yn rhoi adborth yn ystod gwasanaeth y plant.
- ❖ Bydd y Pennaeth yn diweddarau'r Llywodraethwyr. Bydd Cyngor yr Ysgol yn adrodd i'r Llywodraethwyr unwaith y tymor.



RHEOLAU

Byddwn yn cadw at y rheolau canlynol yn ystod cyfarfodydd:

- ✦ Y Cadeirydd sy'n rheoli'r cyfarfod ac yn gofyn i bobl i siarad.**
- ✦ Un person fydd yn siarad ar y tro.**
- ✦ Rydym yn parchu syniadau pawb ac yn osgoi gwneud hwyl am syniadau pobl eraill.**
- ✦ Rydym i gyd yn ceisio dweud o leiaf un peth ym mhob cyfarfod, hyd yn oed os ydym yn teimlo yn nerfus.**
- ✦ Nid ydym yn defnyddio enw unrhyw un heb ganiatâd, yn cynnwys disgyblion neu athrawon, pan fyddwn yn sôn am bethau mewn cyfarfod.**
- ✦ Cofiwch eich bod yn cynrychioli barn eich dosbarth. Felly, dewch â nodiadau o drafodaethau a gynhaliwyd yn eich dosbarth yn ystod Amser Cylch i'r cyfarfodydd.**